------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 31 Ionawr 2022

Amser: 13.00


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru


## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.00)

**Dogfennau atodol:**

## 2 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

(13.00-14.30) (Tudalennau 1 - 39)

Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Rob Parry - Dirprwy Gyfarwyddwr Deddfwriaeth Trefniadau Pontio Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru

Paul Harrington - Pennaeth Gysylltiadau Rhynglywodraethol, Trefniadau Pontio Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru

Cyfleoedd Brexit: Adolygiad o Gyfraith yr UE a Ddargedwir - Datganiad a wnaed ar 9 Rhagfyr 2021

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-22 - Papur 1 - Briff Ymchwil

LJC(6)-04-22 - Papur 2 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad - 25 Tachwedd 2021

LJC(6)-04-22 - Papur 3 - Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y

Cyfansoddiad – 15 Tachwedd 2021

LJC(6)-04-22 – Papur 4 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad – 19 Tachwedd 2021

LJC(6)-04-22 – Papur 5 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad – 8 Tachwedd 2021

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.30-14.35) (Tudalennau 40 - 42)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-22 - Papur 6 - Offerynnau Statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

### 3.1 SL(6)129 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022

**Dogfennau atodol:**

### 3.2 SL(6)136 – Rheoliadau Addysg (Cymhwystra ar gyfer Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygio) (Cymru) 2022

**Dogfennau atodol:**

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.35-14.45)

**Dogfennau atodol:**

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

**4.1 SL(6)130 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Contractau Safonol â Chymorth) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 43 - 46)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-22 – Papur 7 – Adroddiad drafft

**4.2 SL(6)131 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 47 - 49)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-22 – Papur 8 – Adroddiad drafft

**4.3 SL(6)132 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig o Gontractau Meddiannaeth) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 50 - 52)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-22 – Papur 9 – Adroddiad drafft

**4.4 SL(6)134 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 53 - 55)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-22 – Papur 10 – Adroddiad drafft

**4.5 SL(6)139 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2022**

(Tudalennau 56 - 59)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-22 – Papur 11 – Adroddiad drafft

LJC(6)-04-22 – Papur 12 – Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd – 20 Ionawr 2022

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

**4.6 SL(6)133 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 9A) 2022**

(Tudalennau 60 - 62)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-22 – Papur 13 – Adroddiad drafft

## 5 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

(14.45-14.55)

**Dogfennau atodol:**

**5.1 SL(6)137 - Cod ar yr Arferion a Argymhellir o ran Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol**

(Tudalennau 63 - 64)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-22 - Papur 14 - Adroddiad drafft

## 6 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd yn flaenorol

(14.55-15.05)

**Dogfennau atodol:**

**6.1 SL(6)087 - Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2021**

(Tudalennau 65 - 68)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-22 - Papur 15 - Adroddiad

LJC(6)-04-22 - Papur 16 - Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg - 25 Ionawr 2022

**6.2 SL(6)135 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2022**

(Tudalennau 69 - 72)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-22 – Papur 17 – Adroddiad drafft

LJC(6)-04-22 – Papur 18 – Ymateb y Llywodraeth Cymru

## 7 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

(15.05.15.15)

**Dogfennau atodol:**

### 7.1 WS-30C(6)005 – Rheoliadau Gwastraff ac Amaethyddiaeth (Swyddogaethau Deddfwriaethol) 2022

(Tudalennau 73 - 79)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-22 – Papur 19 – Datganiad ysgrifenedig, 17 Ionawr 2022

LJC(6)-04-22 – Papur 20 – Sylwadau

### 7.2 WS-30C(6)006 – Rheoliadau Plaladdwyr (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2022

(Tudalennau 80 - 88)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-22 – Papur 21 – Datganiad ysgrifenedig, 20 Ionawr 2022

LJC(6)-04-22 – Papur 22 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Ionawr 2022

LJC(6)-04-22 – Papur 23 – Sylwadau

## 8 Papurau i'w nodi

(15.15)

**Dogfennau atodol:**

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15.15)

**Dogfennau atodol:**

## 10 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad – trafod y dystiolaeth

(15.15-15.25)

**Dogfennau atodol:**

## 11 Adroddiad monitro

(15.25-15.35) (Tudalennau 89 - 101)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-22 - Papur 24 - Adroddiad monitro [Saesneg yn unig]

## 12 Cynllunio strategol a'r flaenraglen waith

(15.35.15.55) (Tudalennau 102 - 119)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-22 - Papur 25 - Papur trafod

LJC(6)-04-22 - Papur 26 - Crynodeb o ymgysylltu [Saesneg yn unig]

LJC(6)-04-22 - Papur 27 - Papur briffio (Rheoliadau Covid) [Saesneg yn unig]

LJC(6)-04-22 - Papur 28 - Papur briffio (Adroddiad Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi) [Saesneg yn unig]

## 13 Adolygiad o gylch gwaith y Pwyllgor

(15.55-16.05) (To Follow)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-22 - Papur 29 - Ymateb drafft

## 14 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael)

(16.05-16.15) (Tudalennau 120 - 123)

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael)]

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-22 – Papur 30 – Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 15 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Rhenti Masnachol (Coronafeirws)

(16.15-16.25) (Tudalennau 124 - 130)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Rhenti Masnachol (Coronafeirws)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-22 – Papur 31 – Adroddiad drafft

## 16 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau

(16.25-16.35) (Tudalennau 131 - 136)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-04-22 – Papur 32 – Adroddiad drafft

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

25 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Tachwedd. Rhoddais yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn dilyn cyfarfod Gweinidogion y pedair gwlad ar y fframweithiau yn fy llythyr dyddiedig 19 Tachwedd.

Mewn perthynas â'ch pwyntiau penodol:

Yn y cyfarfod rhwng y pedair gwlad ar 10 Tachwedd, cytunwyd ar y materion trawsbynciol sy'n effeithio ar y geiriad ar gyfer y Fframweithiau Cyffredin, sef geiriad y testun ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol, Protocol Gogledd Iwerddon a'r broses o sut y bydd eithriadau ar gyfer meysydd polisi mewn fframweithiau a effeithiwyd gan Ddeddf Marchnad Fewnol y DU yn cael eu rhoi ar waith. Fel yr eglurais yn fy llythyr dyddiedig 19 Tachwedd, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar y testun ar eithriadau Deddf Marchnad Fewnol y DU niweidio'r adolygiad barnwrol parhaus mewn perthynas â Deddf y Farchnad Fewnol.

Yn dilyn y cyfarfod rhwng y pedair gwlad, mae'r fframweithiau'n symud yn gyflym at gael eu cyhoeddi er mwyn i'r pwyllgorau'r deddfwrfeydd graffu arnynt. Mae'r fframwaith Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd eisoes wedi cael ei gyhoeddi, ar 28 Hydref. Mae dogfennau'r fframwaith yn cael eu cwblhau ac mae'r dyddiadau cyhoeddi yn dal yn hyblyg, ond gan ystyried y cafeatau hyn, mae pob ymdrech yn cael ei gwneud i gyhoeddi fframweithiau i graffu arnynt ar y dyddiadau canlynol:

**2 Rhagfyr**
Diogelwch ac Ansawdd Gwaed; Organau, Meinweoedd a Chelloedd; Cyfraith Cwmnïau (Gweithredaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth y DU yn unig); Niferoedd Penodol (Gweithredaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth y DU yn unig).

**9-16 Rhagfyr**

Y Cynllun Masnachu Allyriadau; Taliad Hwyr; Sylweddau Ymbelydrol; Caffael Cyhoeddus; Cymorth Amaethyddol; Amaethyddiaeth – Rheoliadau Gwrteithiau, Amaethyddiaeth –

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ffermio Organig; Amaethyddiaeth – Zootech; Iechyd a Lles Anifeiliaid; Iechyd Planhigion; Amrywogaethau a Hadau Planhigion; Ansawdd Aer; Technegau Gorau Sydd ar Gael (ansawdd aer); Safonau a Labeli Cyfansoddiad Bwyd; Sylweddau sy'n Teneuo'r Osôn a Nwyon wedi'u fflworeiddio; Cemegion a Phlaladdwyr; Adnoddau a Gwastraff.

**Ionawr 2022**
Pysgodfeydd: Rheoli a Chefnogi.

Mae fy swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â chlercod y pwyllgorau am beth amser i drafod y dulliau o ymdrin â'r fframweithiau, ac rwy'n deall bod swyddogion y Senedd yn paratoi i ddadansoddi fframweithiau a'u paratoi er mwyn i'r Pwyllgorau graffu arnynt cyn gynted â'u bod yn cael eu cyhoeddi.

Wrth gwrs, mater i'r pwyllgorau yw hyd y broses graffu ar y fframweithiau. Yn ddelfrydol, bydd y gwaith o graffu ar y fframweithiau a'u cymeradwyo yn digwydd cyn dechrau'r cyfnod cyn-etholiadol yng Ngogledd Iwerddon. Nid yw'r dyddiad hwn wedi'i gadarnhau eto, ond mae'n debygol mai ddiwedd mis Mawrth fydd hynny, os bydd yr etholiadau'n cael eu cynnal ar 5 Mai, yn ôl y bwriad. Rwy'n llawn werthfawrogi bod hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar Bwyllgorau sydd eisoes dan bwysau i archwilio nifer fawr iawn o ddeunydd fframweithiau mewn cyfnod byr. Byddai fy nhîm polisi fframweithiau yn hapus i gynnig unrhyw gymorth er mwyn helpu'r broses graffu.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

15 Tachwedd 2021

Annwyl Mick

Fframweithiau Cyffredin

Yn ein cyfarfod heddiw, gwnaethom nodi'n ffurfiol eich llythyr dyddiedig 8 Tachwedd, lle gwnaethoch roi gwybod inni y byddai cyfarfod gweinidogol pedairochrog ar fframweithiau cyffredin yn cael ei gynnal ar 10 Tachwedd.

Rydym yn ddiolchgar ichi am ddarparu gwybodaeth i ni ynghylch pwy oedd i fod yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw a beth fyddai ffocws y trafodaethau, ynghyd â rhestr o'r eitemau ar yr agenda ddrafft.

Rydym yn cydnabod eich bod wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch canlyniadau'r cyfarfod pedairochrog o fewn pythefnos i'w gynnal. Serch hynny, mae nifer o gwestiynau yr ydym yn dymuno eu gofyn ichi nawr, fel y gellir ymdrin â hwy cyn gynted ag y bo modd.

Byddwch yn cofio imi ysgrifennu atoch ym mis Gorffennaf yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y rhaglen fframweithiau cyffredin. Roedd y llythyr a anfonwyd gennych mewn ymateb, dyddiedig 7 Medi, yn ddefnyddiol iawn inni o ran asesu a chynllunio ar gyfer y llwyth gwaith a ragwelir. Byddwn yn ddiolchgar hefyd pe gallech ddarparu'r eitemau a ganlyn:

1. y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y rhaglen fframweithiau cyffredin, gan gynnwys y cynnydd a wneir tuag at gytundeb ar sut y bydd y fframweithiau'n ymdrin â rhwymedigaethau rhyngwladol a sut y byddant yn rhyngweithio â *Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020* a Phrotocol Gogledd Iwerddon;

2. dyddiad wedi'i gadarnhau (neu ddyddiad tebygol) ar gyfer cyhoeddi pob fframwaith dros dro sydd ar waith ar hyn o bryd, a hynny er mwyn sicrhau tryloywder i randdeiliaid y bydd y penderfyniadau a wneir ar gyfreithiau a pholisïau yn y meysydd hyn yn effeithio arnynt;

3. y dyddiad erbyn pryd y mae Llywodraethau'r DU yn disgwyl y bydd yr holl fframweithiau cyffredin wedi bod yn destun gwaith craffu gan eu priod Seneddau ac yn destun gwaith i'w cwblhau yn dilyn hynny.

Yr wyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Byddwn yn gwerthfawrogi ymateb erbyn 25 Tachwedd 2021.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

19 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

Yn dilyn fy llythyr ar 8 Tachwedd, rwy'n ysgrifennu'n unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ynghylch canlyniad y cyfarfod Gweinidogol Pedairochrog ar Fframweithiau Cyffredin, a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd.

Daethpwyd i gytundeb ar bob un o'r pynciau trawsbynciol a oedd heb eu cytuno, sef proses ar gyfer eithriadau  o dan Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig mewn achosion o wahaniaethau a gynigir, ac ar y geiriad mewn perthynas â Chysylltiadau Rhyngwladol a Phrotocol Gogledd Iwerddon. O ran y broses eithriadau, roedd Llywodraeth Cymru wedi mynd â'r holl drafodaethau, negodiadau a phenderfyniadau, heb ragfarn, at yr adolygiad barnwrol sy'n parhau i fynd rhagddo mewn perthynas â Deddf y Farchnad Fewnol.

Hefyd, ymrwymodd yr holl bartïon i adrodd ar y fframweithiau yn y dyfodol fel rhan o'r broses o oruchwylio'r fframweithiau o fewn yr Adolygiad Cysylltiadau Rhyglywodraethol. Bydd y broses hon hefyd yn rhoi sicrwydd i bwyllgorau'r Senedd y byddant yn gallu monitro hynt y fframweithiau dros y tymor hirach. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gynhyrchu papur erbyn diwedd y flwyddyn hon, i'w gytuno gan Weinidogion y pedair llywodraeth, yn amlinellu dull gweithredu ar gyfer adrodd ar Fframweithiau Cyffredin.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig, sy’n rhoi’r newyddion diweddaraf am raglen y Fframweithiau Cyffredin, yn hanner cyntaf mis Rhagfyr cyn i’r rhan fwyaf o fframweithiau gael eu cyhoeddi at ddibenion craffu.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

08 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

Rwyf yn ysgrifennu yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol i'ch hysbysu y cynhelir cyfarfod gweinidogol pedairochrog ar Fframweithiau Cyffredin ar 10 Tachwedd am 14.15. Cynhelir y cyfarfod hwn yn rhithiol.

Bwriedir i'r cyfarfod gael ei fynychu gan Weinidogion sy'n gyfrifol am y rhaglen Fframweithiau Cyffredin o Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a minnau fel y Gweinidog yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y rhaglen.

Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar ddatrys materion trawsbynciol (gan gynnwys Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig (2020), Cysylltiadau Rhyngwladol a Phrotocol Gogledd Iwerddon, a chytuno ar gynllun ar gyfer cyhoeddi Fframweithiau Cyffredin at ddibenion craffu.

Mae'r agenda ddrafft isod:

1. Camau gweithredu craidd o'r Cyfarfod Pedairochrog diwethaf
2. Cynnydd diweddar ar draws y rhaglen
    a. Materion trawsbynciol: Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig
    b. Materion trawsbynciol: Cysylltiadau Rhyngwladol
    c. Materion trawsbynciol: Protocol Gogledd Iwerddon
3. Amserlenni cyflawni
    a. Amserlenni cyflawni'r rhaglen
    b. Cyhoeddi Fframweithiau
4. Prif ffrydio (Adrodd yn y Dyfodol)

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwch wedi cael gwybod am y cyfarfod pedairochrog cyn pen pythefnos ar ôl iddo gael ei gynnal.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

# Eitem 3

## Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
## 31 Ionawr 2022

## SL(6)129 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae adran 91 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i landlord, o dan gontract diogel, contract safonol cyfnodol neu gontract safonol cyfnod penodol a wneir am gyfnod o lai na 7 mlynedd, sicrhau bod yr annedd yn addas i bobl fyw ynddi. Mae adran 92 yn ei gwneud yn ofynnol i'r landlord gadw'r annedd mewn cyflwr da.

Mae adran 94(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ragnodi materion ac amgylchiadau y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt wrth benderfynu a yw annedd yn addas i bobl fyw ynddi ai peidio, ac mae adran 94(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi materion ac amgylchiadau a allai godi oherwydd methiant landlord i gadw'r annedd mewn cyflwr da. Mae adran 94(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod gofynion ar landlordiaid ac i ragnodi, os na chydymffurfir â'r gofynion hynny, bod yr annedd i'w thrin fel pe na bai'n addas i bobl fyw ynddi.

Mae rheoliad 3 a'r Atodlen yn rhagnodi'r materion a'r amgylchiadau y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt wrth benderfynu a yw annedd yn addas i bobl fyw ynddi ai peidio.

Mae rheoliad 4 yn darparu bod rheoliadau 5 i 8 yn gymwys mewn perthynas â chontract diogel, contract safonol cyfnodol neu gontract safonol cyfnod penodol a wneir am gyfnod o lai na 7 mlynedd, ac sy'n ymgorffori adran 91 o'r Ddeddf fel un o delerau'r contract.

Mae rheoliad 4 yn cymhwyso rheoliadau 5 i 8 i'r un mathau o gontract meddiannaeth â rheoliad 3.

Mae rheoliadau 5 a 6 yn gosod gofynion ar landlord at ddibenion atal unrhyw faterion neu amgylchiadau rhag codi a allai beri nad yw annedd yn addas i bobl fyw ynddi.

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i larymau mwg a larymau carbon monocsid, sydd mewn cyflwr da ac yn gweithio’n iawn, fod yn bresennol mewn annedd.

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r gosodiadau gwasanaeth trydanol mewn annedd gael eu harchwilio gan berson cymwysedig fesul ysbaid o 5 mlynedd neu lai; a bod copi o'r adroddiad ar gyflwr yn cael ei roi i ddeiliad y contract. Os caiff gwaith ei wneud ar osodiadau

gwasanaeth trydanol annedd rhwng archwiliadau diogelwch trydanol, rhaid i'r landlord sicrhau y rhoddir i ddeiliad y contract gadarnhad ysgrifendig bod y gwaith wedi'i wneud.

Pan fo landlord yn methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan reoliad 5 neu 6, mae'r annedd i'w thrin fel pe na bai'n addas i bobl fyw ynddi hyd nes y bydd y landlord wedi cywiro'r methiant. Os bydd y methiant yn digwydd eto, bydd yr annedd, unwaith eto, i'w thrin fel pe na bai'n addas i bobl fyw ynddi hyd nes y caiff y methiant ei gywiro.

Mae rheoliad 7 yn gwneud darpariaeth ynghylch amser ychwanegol i landlordiaid i sicrhau eu bod yn cydymffurfio o dan denantiaethau a thrwyddedau presennol a ddaw yn gontractau meddiannaeth o dan y Ddeddf.

Mae rheoliad 8 yn galluogi landlordiaid i ddibynnu ar adroddiadau ar gyflwr trydanol a gafwyd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016
**Fe'u gwnaed ar:** 07 Ionawr 2022
**Fe'u gosodwyd ar:** 12 Ionawr 2022
**Yn dod i rym:** yn unol â rheoliad 1

# SL(6)136 – Rheoliadau Addysg (Cymhwystra ar gyfer Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygio) (Cymru) 2022

## Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i ddarparu'r sail ar gyfer y system o gymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig yn y DU, a myfyrwyr eraill sy'n astudio yng Nghymru. Mae'r rheoliadau cyllid myfyrwyr yn cynnwys meini prawf cymhwystra sy'n pennu y gall grwpiau penodol fod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr, statws ffioedd cartref a'r cap ar ffioedd dysgu.

Mae Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyriwr cymwys fynychu Athrofa'r Brifysgol Ewropeaidd. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2014, drwy ddarparu drafft wedi'i ail-fformatio mewn perthynas â'r diffiniad o "un o ddinasyddion y DU" a chywiro'r diffiniad o "bartner gwarchodedig".

Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018") yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr  sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Awst 2018.  Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwall yn Rheoliadau 2018 a wnaed mewn rheoliadau diwygio blaenorol, er mwyn sicrhau nad yw gwladolion Gwyddelig (a oedd yn byw yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir ar ddiwedd y

cyfnod pontio) yn gallu gwneud cais am gymorth cynhaliaeth ond eu bod yn parhau i fod yn gymwys i gael cymorth at ffioedd, statws ffioedd cartref a'r cap ffioedd dysgu.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998
**Fe'u gwnaed ar:** 17 Ionawr 2022
**Fe'u gosodwyd ar:** 19 Ionawr 2022
**Yn dod i rym ar:** 11 Chwefror 2022

# SL(6)130 - Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Contractau Safonol â Chymorth) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022

## Cefndir a Diben

Gwneir Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Contractau Safonol â Chymorth) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau") drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 23(1), 131 a 256(1) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016"). Daw'r Rheoliadau i rym ar ddiwrnod sydd i'w bennu gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 1.

Mae Deddf 2016 yn ceisio ei gwneud yn symlach ac yn haws rhentu cartref yng Nghymru drwy gyflwyno un fframwaith cyfreithiol clir yn lle'r darnau presennol o ddeddfwriaeth amrywiol a chymhleth. Bydd "contractau meddiannaeth" newydd yn disodli tenantiaethau a thrwyddedau preswyl presennol, gan wneud hawliau a rhwymedigaethau'r landlord a'r tenant neu'r trwyddedai (y cyfeirir ato yn Neddf 2016 fel "deiliad y contract") yn llawer cliriach.

Bydd pob contract meddiannaeth yn cynnwys y telerau sylfaenol perthnasol a nodir yn Neddf 2016 fel darpariaethau sylfaenol. Mae'r rhain yn ymwneud â hawliau a rhwymedigaethau hanfodol landlordiaid a deiliaid contract. Mae telerau atodol yn ymwneud â materion ymarferol sy'n helpu i wneud i'r contract meddiannaeth weithio, megis galluogi landlord i gael mynediad i eiddo i wneud gwaith atgyweirio neu gynnal a chadw. Mae'r telerau atodol wedi'u nodi fel darpariaethau mewn rheoliadau yn hytrach nag yn Neddf 2016 ei hun. Mae hyn er mwyn ei gwneud yn haws nag a fyddai fel arall i unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu arferion yn ymwneud â thai yn y dyfodol gael eu hymgorffori mewn contractau meddiannaeth.

Mae'r Rheoliadau'n nodi'r darpariaethau atodol sydd, yn ddarostyngedig i adrannau 21, 24 a 25 o Ddeddf 2016, wedi'u hymgorffori mewn contractau safonol â chymorth, fel telerau atodol. Fodd bynnag, wrth lunio'r contract meddiannaeth, caiff y partïon gytuno bod darpariaeth atodol wedi ei haddasu neu nad yw wedi ei chynnwys yn y contract meddiannaeth. Ond, ni chaniateir i addasiad neu hepgoriad wneud y contract meddiannaeth yn anghydnaws ag unrhyw un o delerau sylfaenol y contract.

Mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y contract gael cydsyniad y landlord cyn cynnal masnach neu fusnes yn yr annedd.

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y contract gael cydsyniad y landlord cyn caniatáu i letywyr fyw yn yr annedd.

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r landlord ddarparu rhestr eiddo i ddeiliad y contract, o fewn cyfnod amser penodedig. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi

deiliad y contract i wneud sylwadau ar y rhestr eiddo, a sut y caiff y landlord ymateb i'r sylwadau hynny.

Mae rheoliad 7 yn darparu nad yw deiliad y contract yn atebol am rent ar gyfer pob diwrnod (neu ran o ddiwrnod) pan na fo'r annedd yn ffit i bobl fyw ynddi.

Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r landlord ddarparu, o fewn 14 o ddiwrnodau i unrhyw gais gan ddeiliad y contract, dderbynneb ysgrifenedig am rent neu gydnabyddiaeth arall a dalwyd gan ddeiliad y contract.

Mae rheoliad 9 yn nodi sut y caiff deiliad contract newid darparwyr cyfleustodau i'r annedd.

Mae rheoliad 10 yn gosod nifer o ofynion ar ddeiliad y contract mewn perthynas â gofalu am yr annedd, gosodiadau a ffitiadau yn yr annedd ac unrhyw eitemau a restrir yn y rhestr eiddo. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y contract gael cydsyniad y landlord cyn symud o'r annedd unrhyw osodiadau a ffitiadau neu unrhyw eitemau a restrir yn y rhestr eiddo. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y contract gadw'r annedd wedi ei haddurno mewn cyflwr rhesymol. Mae hefyd yn gwahardd deiliad y contract rhag cadw unrhyw beth yn yr annedd a fyddai'n peri risg iechyd a diogelwch.

Mae rheoliad 11 yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y contract adrodd i'r landlord am unrhyw nam, diffyg, difrod neu adfeiliad yn yr annedd y mae deiliad y contract yn credu'n rhesymol fod y landlord yn gyfrifol amdano. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y contract wneud yr atgyweiriadau hynny y mae deiliad y contract yn credu'n rhesymol nad yw'r landlord yn gyfrifol amdanynt.

Mae rheoliad 12 yn rhoi hawl i'r landlord, ar ôl rhoi rhybudd o 24 awr, fynd i'r annedd ar unrhyw adeg resymol at ddiben gwneud yr atgyweiriadau hynny yr oedd deiliad y contract yn gyfrifol amdanynt nas gwnaed.

Mae rheoliad 13 yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y contract roi i'r landlord fynediad i'r annedd yn syth i ymdrin ag argyfwng. Mae'n nodi y caiff y landlord fynd i'r annedd mewn argyfwng os nad yw deiliad y contract yn rhoi mynediad iddo.

Mae rheoliad 14 yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y contract gadw'r annedd yn ddiogel ac yn nodi y caiff deiliad y contract newid y cloeon yn yr annedd, ar yr amod nad yw'r newidiadau yn darparu llai o ddiogelwch, a bod copïau o unrhyw allweddi newydd yn cael eu rhoi i'r landlord.

Mae rheoliad 15 yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y contract gael cydsyniad y landlord cyn gwneud addasiadau i'r annedd ac yn diffinio "addasiad" at ddibenion y rheoliad hwn.

Mae rheoliad 16 yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y contract, pan fydd y contract meddiannaeth yn dod i ben, symud o'r annedd ei holl eiddo ac eiddo unrhyw feddianwyr a ganiateir. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol dychwelyd unrhyw eiddo sy'n berchen i'r landlord i'r safle lle yr oedd ar ddechrau'r contract meddiannaeth, ac yn ei gwneud yn ofynnol dychwelyd allweddi.

Mae rheoliad 17 yn rhagnodi’r cyfnod rhybudd i’w roi i’r landlord gan gyd-ddeiliad contract sy’n dymuno tynnu’n ôl o’r contract meddiannaeth.

Mae rheoliad 18 yn ei gwneud yn ofynnol i’r landlord ad-dalu (o fewn cyfnod rhesymol) i ddeiliad y contract unrhyw rent a dalwyd ymlaen llaw neu unrhyw gydnabyddiaeth arall sy’n ymwneud ag unrhyw gyfnod ar ôl i’r contract ddod i ben.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt canlynol i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae Rheoliad 6 yn ymwneud â darparu rhestr eiddo. Mae Rheoliad 6(5) yn nodi’r camau y mae’n rhaid i’r landlord eu cymryd i fynd i’r afael ag unrhyw sylwadau a wneir gan ddeiliad y contract mewn perthynas â’r rhestr eiddo. Nid oes llinell amser wedi ei gosod y mae’n rhaid i’r landlord gymryd y camau hyn o’i mewn, a gall hyn arwain at faterion o ran gorfodi’r ddarpariaeth – os nad oes rhaid i’r landlord gydymffurfio o fewn cyfnod penodol o amser, yna mae’n anos i ddeiliad y contract gyflwyno dadl y dylid bod wedi cydymffurfio eisoes. Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam nad oes llinell amser wedi ei gosod i landlordiaid gydymffurfio â’r gofynion yn Rheoliad 6(5).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt canlynol i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod yn amhriodol oherwydd newid yn yr amgylchiadau ers i’r deddfiad y mae wedi’i wneud neu y mae i’w wneud odano gael ei basio neu ei wneud ei hun.**

Mae Rheoliadau 12 ac 13 yn rhoi hawl i’r landlord fynd i’r annedd. Mae Deddf 2016 yn darparu y caiff landlord fod yn “landlord preifat” neu’n “landlord cymunedol”, ac y gall landlord cymunedol gynnwys awdurdod lleol yn rhinwedd adran 9 o’r Ddeddf honno. Os caiff yr hawl hon ei harfer gan gorff cyhoeddus megis awdurdod lleol, yna gallai fynd yn groes i hawl deiliad y contract i fywyd preifat o dan erthygl 8 o’r Confensiwn Ewropeaidd ar

Hawliau Dynol. Yn yr un modd, gallai fynd yn groes i hawl deiliad y contract i fwynhau ei eiddo heb ymyrraeth yn unol ag erthygl 1 o Brotocol Cyntaf y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Gofynnir i Lywodraeth Cymru ddarparu manylion yr asesiad o’r effaith ar hawliau dynol a gynhaliodd mewn perthynas â rheoliadau 12 ac 13.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**25 Ionawr 2022**

# SL(6)131 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r darpariaethau atodol sydd, yn ddarostyngedig i adrannau 21, 24 a 25 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("y Ddeddf"), wedi eu hymgorffori mewn contractau safonol â chymorth fel telerau atodol.

Y sefyllfa ddiofyn yw bod darpariaethau atodol yn cael eu hymgorffori fel telerau atodol contract meddiannaeth. Fodd bynnag, wrth lunio'r contract meddiannaeth, caiff y partïon gytuno bod darpariaeth atodol wedi ei haddasu neu nad yw wedi ei chynnwys yn y contract meddiannaeth. Ni chaniateir i addasiad neu hepgoriad wneud y contract meddiannaeth yn anghydnaws ag unrhyw un o delerau sylfaenol y contract.

Mae'r Rheoliadau yn nodi darpariaethau atodol sy'n gymwys i wahanol fathau o gontractau meddiannaeth ac yn ymdrin â materion megis:

- cydsyniad y landlord cyn cynnal masnach neu fusnes yn yr annedd;
- pobl y caniateir iddynt fyw yn yr annedd;
- sut i newid darparwyr cyfleustodau;
- bod yr annedd yn wag;
- beth sy'n digwydd i eiddo yn yr annedd ar ddiwedd y contract meddiannaeth;
- ad-dalu rhent a dalwyd ymlaen llaw neu gydnabyddiaeth arall ar ôl diwedd y contract;
- peidio â thalu rhent pan na fo'r annedd yn ffit i bobl fyw ynddi;
- darparu derbynebau rhent;
- gofalu am yr annedd, gosodiadau a ffitiadau ac unrhyw eitemau a restrir mewn unrhyw restr eiddo;
- rhoi gwybod am broblemau gyda'r annedd a gwneud atgyweiriadau;
- y cyfnod rhybudd i'w roi i'r landlord gan gyd-ddeiliad contract sy'n dymuno tynnu'n ôl o'r contract meddiannaeth;
- meddiannu'r annedd fel prif gartref;
- cadw'r annedd yn ddiogel a newid y cloeon;
- cydsynio i addasu unrhyw strwythurau yn yr annedd;
- trosglwyddo'r contract meddiannaeth;
- darparu cyngor i ddeiliad y contract yn dilyn adroddiad o ymddygiad gwaharddedig, megis ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- darparu rhestr eiddo a'r broses o gytuno arni;
- cadw dogfennau sy'n ymwneud â'r annedd; a
- chydsynio o ran lletywyr.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau cyn pen 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad sy'n fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 27 yn ymdrin â darparu rhestr eiddo o dan fathau penodol o gontractau meddiannaeth. Mae rheoliad 27(5) yn nodi'r camau y mae'n rhaid i'r landlord eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw sylwadau a wneir gan ddeiliad y contract mewn perthynas â'r rhestr eiddo. Nid oes unrhyw amserlen wedi'i phennu ar gyfer y landlord i gymryd y camau hyn, a allai arwain at broblemau o ran gorfodi'r ddarpariaeth – os nad yw'n ofynnol i'r landlord gydymffurfio o fewn cyfnod penodol, mae'n anoddach i ddeiliad contract gyflwyno dadl y dylai cydymffurfiaeth fod wedi digwydd eisoes. Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam nad oes amserlen wedi'i phennu i landlordiaid gydymffurfio â'r gofynion yn Rheoliad 27(5).

## Rhinweddau: Craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Nodyn Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi fel a ganlyn:

> *Mae rheoliad 5 yn darparu y caiff deiliad y contract ganiatáu i bersonau nad ydynt yn lletywyr neu'n isddeiliaid fyw yn yr annedd. Ni chaiff y landlord na deiliad y contract beri neu ganiatáu i'r annedd fynd yn orlawn o fewn ystyr Rhan 10 (gorlenwi) o Ddeddf Tai 1985 (p. 68).*

Fodd bynnag, nid yw'r cyfyngiad ar y landlord a deiliad y contract sy'n datgan na allant beri na chaniatáu i'r annedd fynd yn orlawn o fewn ystyr Rhan 10 (gorlenwi) o Ddeddf Tai 1985 wedi'i gynnwys yn Rheoliad 5 ei hun nac yn unrhyw le arall yn y Rheoliadau. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi bod y ddarpariaeth wedi'i hailddrafftio i ddileu'r cyfeiriad at 'fod yn orlawn' o fewn ystyr Rhan 10 o Ddeddf Tai 1985. Gallai cyfeirio at

gyfyngiad yn y Nodiadau Esboniadol nad yw bellach wedi'i gynnwys yn y Rheoliadau beri dryswch i'r darllenydd. Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau pam mae'r cyfeiriad hwn wedi'i gynnwys yn y Nodyn Esboniadol ar ôl iddo gael ei ddileu o'r Rheoliadau.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae rheoliadau 15, 16 a 33 yn rhoi'r hawl i'r landlord – boed yn landlord preifat neu'n "landlord cymunedol", sydd yn ôl ei ddiffiniad yn cynnwys awdurdodau lleol – i fynd i mewn i'r annedd. Pan fo'r hawl hon yn cael ei harfer gan gorff cyhoeddus megis awdurdod lleol yna gall ymyrryd â hawl deiliad y contract i fywyd preifat o dan erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Yn yr un modd, gallai ymyrryd â hawl deiliad y contract i fwynhau ei eiddo mewn heddwch o dan erthygl 1 o Brotocol Cyntaf y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Gofynnir i Lywodraeth Cymru ddarparu manylion yr asesiad o ran hawliau dynol a gynhaliwyd ganddi mewn perthynas â Rheoliadau 15, 16 a 33.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb oddi wrth Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**25 Ionawr 2022**

Eitem 4.3

# SL(6)132 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig o Gontractau Meddiannaeth) (Cymru) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r wybodaeth esboniadol y mae'n rhaid ei chynnwys mewn datganiad ysgrifenedig o'r contract meddiannaeth a ddyroddir yn unol ag adran 31 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Mae'r Ddeddf yn sefydlu dau fath o gontract meddiannaeth, sef y contract diogel a'r contract safonol. Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu nifer o wahanol fathau o gontractau safonol y gellir eu defnyddio mewn amgylchiadau penodol.

Mae Rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi gwybodaeth esboniadol y mae'n rhaid ei chynnwys ym mhob datganiad ysgrifenedig o'r contract meddiannaeth. Mae Rheoliad 3 i Reoliad 9 yn rhagnodi gwybodaeth esboniadol y mae'n rhaid ei chynnwys mewn datganiadau ysgrifenedig o fathau penodol o gontractau meddiannaeth.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae adran 31 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i landlord ddarparu i ddeiliad contract ddatganiad ysgrifenedig o'i gontract meddiannaeth o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad meddiannu. Os bydd y landlord yn methu â gwneud hynny, efallai y bydd yn ofynnol i'r landlord dalu digolledlad i ddeiliad y contract. Mae Adran 35 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ynghylch hyd y cyfnod y mae digolledlad mewn perthynas ag ef yn daladwy. Er enghraifft, os bydd deiliad contract yn meddiannu eiddo am y tro cyntaf ar 1 Ionawr, rhaid i'r landlord ddarparu datganiad ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod, h.y. erbyn 14 Ionawr. Os bydd

y landlord yn methu â gwneud hynny, mae digolllediad yn daladwy am bob diwrnod o 1 Ionawr ymlaen (hyd at uchafswm o ddau fis).

Fodd bynnag, mae rheoliad 3(g) o'r Rheoliadau hyn yn dweud bod yn rhaid i'r datganiad ysgrifenedig gynnwys esboniad o ran, am bob diwrnod y mae'r datganiad ysgrifenedig yn hwyr, y caiff y landlord fod yn atebol i dalu digolledlad i ddeiliad y contract ar gyfer pob diwrnod nad yw'r datganiad ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

Rydym yn pryderu y byddai'n hawdd darllen rheoliad 3(g) i ddweud bod iawndal yn daladwy mewn perthynas â'r cyfnod sy'n dechrau ar ôl i'r cyfnod cychwynnol o 14 diwrnod fynd heibio yn unig. Rydym o'r farn ei bod yn hawdd darllen "yn atebol i dalu digolledlad …am bob diwrnod y mae'r datganiad ysgrifenedig o'r contract meddiannaeth yn hwyr" fel cymal sy'n eithrio digolledlad sy'n daladwy mewn perthynas â'r cyfnod 14 diwrnod ei hun. Gan gymhwyso'r enghraifft uchod, byddai darlleniad o'r fath yn golygu nad yw digoleddiad yn daladwy mewn perthynas â'r cyfnod o 1 i 14 Ionawr. Byddai dehongliad o'r fath, fodd bynnag, yn groes i'r safbwynt a nodwn uchod o dan adran 31 a 35 o'r Ddeddf.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru gadarnhau a yw ein dealltwriaeth o'r Ddeddf yn gywir, ac a yw Llywodraeth Cymru yn credu y dylai'r Rheoliadau fod yn gliriach o ran y cyfnod y mae digolledlad yn daladwy mewn perthynas ag ef.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 5(b) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiadau ysgrifenedig o gontractau safonol cyfnodol gynnwys esboniad, cyn y gall llys wneud gorchymyn adennill meddiant, bod yn rhaid i'r landlord ddangos bod yr holl weithdrefnau cywir wedi'u dilyn a bod amodau penodol (yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol) wedi'u bodloni.

Mae rheoliad 5(b)(iv)(aa) yn gofyn am esboniad penodol, sef, pan fo contractau o'r fath yn ymgorffori adran 173 o'r Ddeddf (hysbysiad y landlord), bod yn rhaid i'r landlord ddangos:

- bod y landlord wedi rhoi hysbysiad i ddeiliad y contract o dan adran 173 bod rhaid iddo ildio meddiannaeth ar ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad, ac
- nad yw unrhyw gyfyngiadau ar roi hysbysiad o dan 173 o'r Ddeddf yn gymwys, gan gynnwys y cyfyngiadau a nodir yn adran 75 ac adran 98 o Ddeddf Tai 2004 ac adran 44 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru egluro'r sail ddeddfwriaethol dros ei gwneud yn ofynnol i landlord gydymffurfio â'r cyfyngiadau penodol y cyfeirir atynt uchod er mwyn rhoi hysbysiad o dan adran 173 o'r Ddeddf.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 8(b)(v) yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth esboniadol benodedig o dan amgylchiadau pan fo contract meddiannaeth safonol cyfnod penodol yn ymgorffori

adran 194 o'r Ddeddf fel un o delerau'r contract hwnnw. Mae'r wybodaeth benodedig yn cynnwys bod angen i'r landlord ddangos, pan fo'r contract meddiannaeth o fewn y canlynol:

- Atodlen 8A i'r Ddeddf, y rhoddwyd o leiaf ddau fis o hysbysiad i ddeiliad y contract bod yn rhaid iddo ildio meddiant (Rheoliad 8(b)(v)(cc)); a
- Naill ai Atodlen 8A, Atodlen 9 neu Atodlen 9C i'r Ddeddf (neu unrhyw gyfuniad ohonynt), y rhoddwyd yr hysbysiad perthnasol i ddeiliad y contract bod rhaid iddo ildio meddiant (Rheoliad 8(b)(v)(dd)).

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro'r rheswm dros gyfeirio at gontractau meddiannaeth o fewn Atodlen 8A yn Rheoliad 8(b)(v)(dd), o gofio bod isafswm y cyfnod hysbysiad o ddau fis ar gyfer y contractau hyn eisoes wedi'i bennu yn Rheoliad 8(b)(v)(cc).

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**26 Ionawr 2022**

# SL(6)134 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol hyn yn rhagnodi tri datganiad ysgrifenedig enghreifftiol o gontract meddiannaeth i'w defnyddio gan landlordiaid o dan y fframwaith newydd a sefydlwyd gan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Deddf 2016).

Mae'r datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol yn ymwneud â thri math o gontract:

1. contractau meddiannaeth diogel,
2. contractau meddiannaeth safonol cyfnodol, a
3. contractau safonol cyfnod penodol a wneir am gyfnod llai na saith mlynedd.

Mae'r datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol yn ymgorffori'r telerau sy'n berthnasol i bob math o gontract. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai bwriad hyn yw annog cysondeb yn y ffordd y caiff datganiadau ysgrifenedig eu drafftio ac yn darparu datganiadau ysgrifenedig sy'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol Deddf 2016.

Rhaid i landlordiaid ddarparu datganiadau ysgrifenedig i ddeiliaid contract, er nad oes rhaid iddynt ddefnyddio'r datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Nid yw'n glir lle mae'r datganiad ysgrifenedig enghreifftiol o gontract meddiannaeth safonol cyfnod penodol am gyfnod o lai na saith mlynedd (yn Atodlen 3) yn darparu ar gyfer nodi cyfnod y contract yn y datganiad ysgrifenedig.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Rydym yn nodi'r materion drafftio a ganlyn:

(a) Atodlen 2, teler 47: mae'r geiriau "ar y sail honno" wedi cael eu hailadrodd yn ddiangen. Ni chaiff y geiriau eu hailadrodd yn adran 157 o Ddeddf 2016 (h.y. yr adran y mae teler 47 yn deillio ohoni);

(b) Atodlen 3, teler 10: defnyddir y gair "Atgyweiriadau" yn y pennawd i deler 10 ond nid yn y pennawd i adran 98 o Ddeddf 2016 (h.y. yr adran y mae teler 10 yn deillio ohoni);

(c) Atodlen 3, teler 39: dylid labelu pob teler yn F, F+ neu S er mwyn helpu darllenwyr i ddeall statws y teler. Fodd bynnag, nid yw teler 39 wedi'i labelu.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Gofynnwn a fyddai'n ddefnyddiol pe bai'r datganiad ysgrifenedig enghreifftiol yn Atodlen 3:

(a) yn nodi esboniad neu rybudd byr ynghylch yr hyn sy'n digwydd ar ddiwedd y tymor (gweler, er enghraifft, y wybodaeth a gynhwysir yn adran 184 o Ddeddf 2016);

(b) yn rhybuddio darllenwyr y gallai telerau ychwanegol gynnwys telerau pwysig iawn (er enghraifft, cymal terfynu landlord sy'n caniatáu i landlord ddod â'r contract i ben cyn diwedd y tymor).

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Rheoliadau Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol hyn yn rhan o gyfres o reoliadau sy'n gweithredu Deddf 2016. Nodwn y pwyntiau adrodd canlynol a godwyd gan y pwyllgor hwn mewn perthynas â rhai o'r rheoliadau eraill hynny sy'n gweithredu Deddf 2016, a sut y caiff y pwyntiau adrodd hynny eu hetifeddu gan y Rheoliadau Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol hyn.

| Enw'r rheoliadau | Pwynt i gyflwyno adroddiad yn ei gylch | Effaith ganlyniadol ar y Rheoliadau Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol |
|---|---|---|
| Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022 | Pan fo deiliad contract yn gwneud sylwadau i'r landlord o ran rhestr eiddo, mae'n rhaid i'r landlord | Mae'r teler sy'n ymwneud â rhestri eiddo yn deler atodol newydd. Mae'r datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol yn |

| | | |
|---|---|---|
| | gymryd camau penodol. Fodd bynnag, ni roddir amserlen i'r landlord gymryd y camau hynny. | Atodlenni 2 a 3 i'r Rheoliadau Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol yn ymgorffori telerau atodol newydd o'r fath, felly etifeddir y mater ynghylch amserlenni gan y Rheoliadau Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol. |
| Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig o Gontractau Meddiannaeth) (Cymru) 2022 | Diffyg eglurder yn y geiriad sy'n ymwneud â'r cyfnod pan fo iawndal yn daladwy pan fydd landlord yn methu â darparu datganiad ysgrifenedig i ddeiliad contract. | Etifeddir y geiriad sydd i'w ddefnyddio mewn datganiadau ysgrifenedig gan y Rheoliadau Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol. Felly, caiff y diffyg eglurder hefyd ei etifeddu. |
| Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig o Gontractau Meddiannaeth) (Cymru) 2022 | Diffyg eglurder o ran yr esboniad o'r angen i gydymffurfio â gofynion penodol cyn y gall landlord roi hysbysiad terfynu i ddeiliad contract. | Etifeddir yr esboniad o'r gofyniad i gydymffurfio â'r gofynion hynny gan Atodlen 2 i'r Rheoliadau Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol. Felly, caiff y diffyg eglurder hefyd ei etifeddu. |

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio dro ar ôl tro at yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gynhaliwyd ar gyfer Deddf 2016. A all Llywodraeth Cymru gadarnhau a yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwnnw (sy'n 5 oed bellach) yn dal i fod yn sail dda i'r casgliadau 'costau a manteision' a nodir yn y Memorandwm Esboniadol?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bwyntiau un, tri a phump.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**27 Ionawr 2022**

Eitem 4.5

# SL(6)139 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2022

## Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (“y prif Reoliadau”), i ddileu’r holl gyfyngiadau ar gynulliadau a digwyddiadau yn yr awyr agored mewn perthynas â Lefel Rhybudd 2, a gyflwynwyd ar 26 Rhagfyr 2021 ac a ddiwygiwyd ar 15 Ionawr 2022. Y cyfyngiadau sy’n cael eu dileu yw:

- y terfyn ar niferoedd ar gyfer digwyddiadau awyr agored a reoleiddir o 500 o bobl;
- y terfyn ar niferoedd a'r drosedd ar gyfer cynulliad yn yr awyr agored o fwy na 50 o bobl;
- y mesurau rhesymol ychwanegol ar gyfer lletygarwch awyr agored (y rheol chwech o bobl a’r gofyniad gwasanaeth bwrdd).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau:

- yn gysylltiedig â newidiadau Lefel Rhybudd 2, gan gynnwys dileu’r drosedd o gymryd rhan mewn cynulliad o fwy na 50 o bobl yn yr awyr agored mewn annedd breifat;
- fel bod y gofyniad i reoli mynediad i fangre ac i gwsmeriaid eistedd wrth archebu bwyd neu ddiod yn gymwys i rannau dan do o'r fangre yn unig.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 6.00 a.m. ar 21 Ionawr 2022.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y 4 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd o'r farn eu bod yn gymesur.*
>
> …
>
> *Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddiadau'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."*

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, ymgysylltwyd ag amrywiol randdeiliaid."*

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparodd Mark Drakeford AS, Prif Weinidog, mewn llythyr at y Llywydd, ar 20 Ionawr 2022.

Yn benodol, nodwn fod y llythyr yn dweud:

*"Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod cyfyngiadau a gofynion y prif Reoliadau yn parhau i fod yn gymesur."*

4. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodir nad oes diwygiadau canlyniadol yn cael eu gwneud i Atodlen 1 i'r prif Reoliadau, sy'n nodi'r cyfyngiadau sy'n gymwys i Lefel Rhybudd 1. Canlyniad hyn, mewn perthynas â chynulliadau a digwyddiadau awyr agored, yw gwneud y cyfyngiadau sy'n gymwys i Lefel Rhybudd 2 yn llai beichus na'r rhai sy'n gymwys i Lefel Rhybudd 1. Gallai hyn achosi dryswch i'r rhai sy'n edrych ar y Lefelau Rhybudd gyda'r bwriad o ddeall mesurau posibl y gellid eu mabwysiadu ar gyfer pob un o'r Lefelau Rhybudd.

Er y gall Llywodraeth Cymru gyflwyno rheoliadau i gywiro'r anghysondebau hyn pe bai Lefel Rhybudd 1 yn cael ei fabwysiadu, mae gwneud hynny'n gofyn am reoliadau diwygio ychwanegol. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod 30 o reoliadau diwygio yn gysylltiedig â'r prif Reoliadau, gan gynnwys y Rheoliadau hyn. Gallai cynyddu nifer y rheoliadau diwygio leihau'r eglurder, yn benodol, mae hyn yn cynyddu nifer yr offerynnau y mae angen i berson eu hadolygu er mwyn deall y sefyllfa ar unrhyw adeg benodol. Gallai hynny arwain at ddryswch ac amwysedd. Cydnabyddir fod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi fersiwn gyfunol o'r prif Reoliadau ar hyn o bryd.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru:

- a roddir unrhyw ystyriaeth i lunio set gyfunol newydd o reoliadau?
- a ellid ystyried defnyddio deunydd esboniadol (Nodiadau Esboniadol a Memoranda Esboniadol) i gynnwys esboniadau ychwanegol i sicrhau eglurder, megis egluro pa Lefel Rhybudd ac Atodlen gyfatebol sydd mewn grym, ac egluro na ddylai'r darllenydd gyferbynnu a chymharu Atodlenni?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru o ran y pedwerydd bwynt rhinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**27 Ionawr 2022**

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1SN

20 Ionawr 2022

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2022**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau hyn o dan adrannau 45C(1) a (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Maent yn dod i rym am 6.00 a.m. ar 21 Ionawr 2022. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac rwy'n bwriadu ei osod, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, unwaith y bydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu fod yr offeryn statudol hwn yn cael ei wneud yn unol â'r weithdrefn negyddol ac y bydd yn dod i rym am 6.00 a.m. ar 21 Ionawr 2022, lai na 21 o ddiwrnodau ar ôl iddo gael ei osod. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod cyfyngiadau a gofynion y prif Reoliadau yn parhau i fod yn gymesur.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 4.6

# SL(6)133 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 9A) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 9A i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") i gynnwys dau ofyniad ychwanegol y mae'n ofynnol i landlordiaid gydymffurfio â hwy.

Mewnosodwyd Atodlen 9A yn Neddf 2016 gan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021. Mae Atodlen 9A eisoes yn atal landlord rhag rhoi hysbysiad o dan adrannau 173, 186, neu o dan gymal terfynu landlord, o dan rai amgylchiadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod dau gyfyngiad pellach ar allu landlord i roi hysbysiad sy'n ceisio meddiant. Y gwaharddiadau yw:

- os nad yw tystysgrif perfformiad ynni ("EPC") wedi'i darparu – mae angen EPC dilys pryd bynnag y caiff eiddo ei adeiladu, ei werthu neu ei rentu; neu
- os yw'r hysbysiad yn ymwneud ag iechyd a diogelwch – yr amgylchiadau iechyd a diogelwch perthnasol yw bod y landlord wedi methu â:
    - sicrhau bod larymau mwg sy'n gweithio a, lle bo angen, larymau carbon monocsid, yn cael eu gosod;
    - cael adroddiad cyflwr trydanol, neu i roi adroddiad o'r fath i ddeiliad y contract neu gadarnhad ysgrifenedig o waith trydanol arall; neu
    - cydymffurfio â Rheoliadau Diogelwch Nwy 1998 drwy ddarparu i ddeiliad y contract, neu arddangos, tystysgrif diogelwch nwy berthnasol.

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn weithredu ochr yn ochr â darpariaethau perthnasol eraill yn Rhan 4 o Ddeddf 2016, sy'n ymdrin â chyflwr anheddau a gaiff eu gosod gan landlordiaid, yn ogystal ag is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, gan gynnwys Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022 a Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae rheoliadau 3 a 4, sy'n mewnosod paragraffau 3A, 5A, 5B a 5C newydd yn Atodlen 9A i Ddeddf 2016, yn atal landlord rhag rhoi hysbysiad os oes rhwymedigaethau statudol penodol yn cael eu torri. Mae'n bosibl y bydd unrhyw ddarpariaeth sy'n ymyrryd ag eiddo unigolyn neu ddefnydd o'r eiddo hwnnw yn rhoi Erthygl 1 Protocol 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ar waith.

Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys cyfiawnhad dros ymyrryd â hawliau dynol. Gofynnir i Lywodraeth Cymru ddarparu manylion yr asesiad hawliau dynol a wnaeth mewn perthynas â Rheoliadau 3 a 4.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, sef Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bumed Senedd wedi cyflwyno adroddiad ar y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) yn ystod trafodion Cyfnod 1. Mae'r Adroddiad yn cyfeirio at fodolaeth y pŵer Harri VIII hwn a'r eglurhad a geisir ar y pryd gan y Gweinidog mewn perthynas â'r cyfiawnhad fod y pŵer (fel pob pŵer arall i wneud rheoliadau yn y Bil hwnnw) yn bŵer Harri VIII. Ymateb y Gweinidog oedd:

> "*Mae'r Atodlenni i Ddeddf 2016 yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru eu diwygio, am y bydd angen i ni adolygu'r materion sydd wedi'u cynnwys yn yr Atodlenni hyn wrth i'r tirlun tai esblygu dros amser. Mae angen i ni gael yr hyblygrwydd i ymateb i'r newidiadau hynny a gwneud darpariaethau priodol o fewn yr Atodlenni amrywiol, yn ôl yr angen. Mae'r Bil hwn felly yn mabwysiadu'r un dull gweithredu. Ymddengys mai'r dewis amgen fyddai rheoliadau a fyddai hefyd yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol neu, fel arall, byddai angen eu darllen ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth sylfaenol, gan olygu y byddai rhai o'r manylion yn syrthio y tu allan i'r ddeddfwriaeth sylfaenol, yn yr is-ddeddfwriaeth, a all, ynddo'i hun, ddenu beirniadaeth o ran materion yn ymwneud â chraffu a hygyrchedd y gyfraith.*"

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**25 Ionawr 2022**

# SL(6)137 – Cod Diwygiedig ar yr Arferion a Argymhellir o ran Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol

## Cefndir a Diben

Mae'r Cod Diwygiedig ar yr Arferion a Argymhellir o ran Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol ("y Cod") yn rhoi arweiniad ar gynnwys, arddull, dosbarthiad a chost cyhoeddusrwydd awdurdodau lleol. Mae'r Cod yn cael ei ddiweddaru a'i ddiwygio i adlewyrchu newidiadau sydd wedi digwydd ers cyhoeddi'r Cod diwethaf yn 2014.

Mae adran 4(1) o'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, a ddiffinnir yn adran 6(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1986, roi sylw i'r Cod wrth wneud unrhyw benderfyniad ar gyhoeddusrwydd. Diffinnir "cyhoeddusrwydd" yn adran 6(4) o Ddeddf 1986 fel 'unrhyw gyfathrebiad, ym mha bynnag ffurf, sydd wedi'i gyfeirio at y cyhoedd yn gyffredinol neu at adran o'r cyhoedd'.

Bwriedir i'r diwygiadau i'r Cod gael eu gwneud a dod i rym erbyn 18 Mawrth 2022 fan bellaf.

## Gweithdrefn

Drafft Negyddol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os, o fewn 40 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodir y drafft, bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft), a daw'r Cod i rym ar ddiwrnod a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod hwn.

1. Mae fersiwn 2014 o'r Cod yn ei gwneud yn glir ei fod yn ddiwygiad o God blaenorol. Er enghraifft, mae paragraff cyntaf Cod 2014 yn cyfeirio ddwywaith at y Cod fel diwygiad. Fodd bynnag, ni wneir y gwahaniaeth hwn yn y fersiwn hon o'r Cod, sydd yn hytrach yn cyfeirio at gyhoeddi'r Cod yn unig. Mae'r gwahaniaeth hwn yn bwysig gan nad yw'r weithdrefn negyddol ond yn berthnasol pan gaiff y Cod ei ddiwygio, yn unol ag adran 4(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1986. Er y nodir bod y Memorandwm Esboniadol yn ei gwneud yn glir mai diwygiad yw'r Cod, ceisir eglurhad ynghylch pam

mae'r fersiwn hon o'r Cod yn defnyddio dull gwahanol i God 2014 drwy beidio â gwneud yn glir mai diwygiad ydyw.

2. Mae paragraffau 34 a 42 yn nodi y dylai unrhyw ddeunydd a gynhyrchir "*roi sylw*" i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a dylid ei gynhyrchu "*yn unol â*" Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Gofynnir am eglurhad ynghylch pam y dylid cynhyrchu deunydd "*yn unol â*" Mesur 2011 ond dim ond "*rhoi sylw*" i Ddeddf 2010.

3. Mae paragraff 19 o'r Cod yn cyfeirio at *"adran 142(A) o Ddeddf 1972"*. Ymddengys y dylai ddarllen "*adran 142**(1A)** o Ddeddf 1972*" (pwyslais wedi'i ychwanegu). Mae'r gwall hwn hefyd yn digwydd yn fersiwn Gymraeg y Cod ac ymddengys ei fod wedi'i gario drosodd o fersiwn 2014 o'r Cod.

4. Nodwn yr anghysondebau a ganlyn rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg y Cod:
   a. Ym mharagraff 7, mae'r fersiwn Gymraeg yn cyfeirio at adolygu strategaethau'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae'r fersiwn Saesneg yn cyfeirio at adolygiadau (nid adolygiadau rheolaidd);
   b. Ym mharagraff 20 o'r fersiwn Gymraeg, ymddengys y dylai *"prif aelod etholedig o'r cyngor"* fod yn *"aelod etholedig o'r prif gyngor"*;
   c. Ym mharagraff 26, mae'r fersiwn Gymraeg yn cyfeirio at *"a/neu ddenu rhai newydd"*. Fodd bynnag, mae'r fersiwn Saesneg yn cyfeirio at *"or attract new ones"* (nid "and/or attract new ones").

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau 1 i 3 uchod.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**26 Ionawr 2022**

# SL(6)087 – Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru)(Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") i sicrhau cydymffurfiad â'r cytundeb ymadael â'r UE, cytundeb gwahanu EFTA yr AEE, y cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd ("y Cytundebau") a'r trefniant o ran yr Ardal Deithio Gyffredin.

Mae'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd ('yr Athrofa'), sydd wedi'i lleoli yn Fflorens yn yr Eidal, yn athrofa ryngwladol ar gyfer ymchwil ac addysgu ôl-ddoethurol ac ôl-raddedig a sefydlwyd gan aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r cymorth ar gyfer myfyrwyr cymwys sy'n mynd i'r Athrofa yn cael ei ddarparu gan Reoliadau 2014. Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond dyfarnu cymorth i un myfyriwr cymwys ym mhob blwyddyn academaidd

Mae'r Rheoliadau yn dileu cymhwystra gwladolion yr UE ar gyfer cymorth ac yn rhoi hawliau i'r dinasyddion hynny o dan y Cytundebau.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau cyn pen 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad sy'n fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 2 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae paragraff cyntaf y Nodyn Esboniadol yn nodi mai un o'r prif ddiwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yw newid y dyddiad olaf i wneud cais o dan Reoliadau 2014 i 28 Chwefror. Nid yw'n ymddangos bod y Rheoliadau hyn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth i newid y dyddiad cau i wneud cais. Mae anghysondeb, felly, rhwng yr hyn y mae'r Rheoliadau'n ei gynnwys a'r hyn y mae'r Nodyn Esboniadol yn ei nodi.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae Rheoliad 11(12) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod paragraff 9B newydd (Gwladolion o'r Deyrnas Unedig) yn Atodlen 1 i Reoliadau 2014. Mae paragraff 9B(1)(b)(ii) yn cynnwys y testun:

> *"ac sydd wedi parhau i breswylio fel arfer yn y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ei ffurfio drwy gydol y cyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben yn union cyn y dyddiad perthnasol"*

Nid yw'n eglur a yw'r testun hwn yn rhan o is-baragraff (ii) neu baragraff (b) ac fe fyddai yr un mor berthnasol i is-baragraffau (i) a (ii). Ym mharagraff 9BA newydd, cymerir y dull olaf.

## Rhinweddau: Craffu

Nodwyd y 2 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae paragraff 289D o'r rheolau mewnfudo yn darparu ar gyfer caniatâd cyfyngedig pellach i aros am gyfnod nad yw'n hwy na 30 mis mewn perthynas ag ymgeisydd nad yw'n bodloni'r gofynion ar gyfer caniatâd amhenodol i aros fel dioddefwr trais domestig. Ni chyfeirir at y ddarpariaeth hon yn is-baragraff cyntaf y diffiniad o "*berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir*" *a* fewnosodwyd yn Rheoliadau 2014 gan y Rheoliadau hyn.

Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa o dan is-baragraff (b) o'r diffiniad hwnnw, sy'n cynnwys cyfeiriad at baragraff D-DVILR.1.2 yn Atodiad FM o'r rheolau mewnfudo. O dan baragraff D-DVILR.1.2, darperir ar gyfer caniatâd cyfyngedig pellach i aros am gyfnod nad yw'n hwy na 30 mis. Mae'r dull hefyd yn wahanol i'r dull a gymerir o dan is-baragraff (c) o'r diffiniad o "*berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir*" mewn perthynas â phartneriaid aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd wedi dioddef trais domestig. Yn yr achos hwnnw mae darpariaeth debyg yn rhoi caniatâd cyfyngedig (o dan baragraff 41 o'r atodiad yn rheolau mewnfudo ynghylch y Lluoedd Arfog).

Nid yw'n glir pam mae person a gafodd ganiatâd cyfyngedig o dan baragraff 289D o'r rheolau mewnfudo y tu allan i gwmpas y diffiniad o "*berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir*" pan fydd person a gafodd ganiatâd cyfyngedig o dan baragraffau D-DVILR.1.2 o Atodiad FM neu baragraff 41 o'r atodiad ynghylch y Lluoedd Arfog, o fewn cwmpas y diffiniad hwnnw.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae rheoliadau 11(2)(c) a (d) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod y testun ", *y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon yn ei ffurfio"* i mewn i is-baragraffau (7) ac (8) o baragraff 1 o Atodlen 1 i Reoliadau 2014. Mae is-baragraffau (7) ac (8) o baragraff 1 o Atodlen 1 i Reoliadau 2014 eisoes yn cynnwys y geiriad "*yn y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig, Gibraltar*". Nid yw'n glir, felly, pam fod "*y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig yn ei ffurfio*" wedi ei ailadrodd yn y darpariaethau hynny.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Craffu technegol**

1. Cafodd y cyfeiriad yn y Nodyn Esboniadol at newid i'r dyddiad olaf i wneud cais ei gynnwys drwy gamgymeriad.
2. Mae'r testun y cyfeirir ato yn yr adroddiad yn gymwys i is-baragraffau (i) a (ii) fel ei gilydd. Cafwyd gwall fformatio a oedd yn golygu bod y testun hwnnw yn dilyn yn syth ar ôl is-baragraff (ii). Nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod y gwall fformatio yn atal y ddarpariaeth honno rhag cael ei dehongli'n gywir.

**Craffu ar rinweddau**

1. Dylai is-baragraff cyntaf y diffiniad o "person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir" fod wedi cynnwys cyfeiriad at baragraff 289D o'r rheolau mewnfudo. Bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at drefnu diwygiad mewn offeryn priodol yn y dyfodol.
2. Mae angen cynnwys y testun "y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon yn ei ffurfio". Mae hwnnw'n derm a ddefnyddir yn y Rheoliadau ac mae'n wahanol i'r term "y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig, Gibraltar…".

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

25 Ionawr 2022

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Rhagfyr mewn perthynas â'r pwyntiau a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021.

Mae'r pwynt technegol cyntaf a godwyd yn yr adroddiad yn ymwneud â gwall yn y Nodyn Esboniadol. Rydym yn ceisio cywiro hyn gyda'r Cofrestrydd Offerynnau Statudol drwy slip cywiro offeryn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud rheoliadau i fynd i'r afael â'r ail bwynt technegol (diffinio gwladolyn o'r DU) a'r pwynt teilyngdod cyntaf (hepgor paragraff 289D o'r rheolau mewnfudo wrth ddiffinio partner a ddiogelir) yn yr adroddiad. Gosodwyd y rheoliadau hyn ar 19 Ionawr.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i'r Pwyllgor.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# SL(6)135 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2022

## Cefndir a diben

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984") yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2022 ("y Rheoliadau") wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 45C(1) a (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf 1984 mewn ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad haint COVID-19.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau"), gan gael effaith o 15 Ionawr 2022, er mwyn:

- darparu, o dan y cyfyngiadau Lefel Rhybudd 2 yn Atodlen 2 i'r prif Reoliadau, y caiff hyd at 500 o bobl fod yn bresennol mewn digwyddiad yn yr awyr agored (gan godi'r terfyn o 50). Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys personau sy'n gweithio neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol yn y digwyddiad. Yn ogystal, pan fo'r digwyddiad yn ddigwyddiad camp tîm, mae'r prif Reoliadau yn trin aelodau o'r timau a'r rheini sy'n darparu hyfforddiant neu sy'n cynorthwyo'r timau fel arall fel pe baent yn gweithio yn y digwyddiad;
- gwneud mân ddiwygiad i reoliad 16 o'r prif Reoliadau, gan ychwanegu cyfeiriad at "Gam 4", sy'n ganlyniadol ar y newidiadau a wnaed i'r prif Reoliadau gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 25) 2021 .

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pedwar pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparodd Mark Drakeford AS, Prif Weinidog, mewn llythyr at y Llywydd, ar 14 Ionawr 2022.

Nodir y canlynol yn y llythyr at y Llywydd:

> *"Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar ddechrau'r dydd ar 15 Ionawr 2022, lai na 21 o ddiwrnodau ar ôl iddo gael ei osod. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn ymateb i'r dystiolaeth newidiol ar y coronafeirws, yn arbennig yr amrywiolyn Omicron."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd o'r farn eu bod yn gymesur.*
>
> *Mae'r prif Reoliadau yn cyffwrdd ag Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (yr hawl i ryddid mynegiant, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (yr hawl i ymgynnull ac ymgysylltu'n rhydd ag eraill) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).*
>
> *Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Rhaid hefyd cydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y*

*coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddiadau'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, ymgysylltwyd ag amrywiol randdeiliaid gan gynnwys Is-adran Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru."*

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau a gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau, i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwynt rhinweddau 4 yn unig.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn (gydag ymateb y Llywodraeth) yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2022**

Pwynt Craffu ar Rinweddau 4:

Ymdrinnir ag effeithiau ar gydraddoldeb yn yr Asesiadau Effaith Cryno sy'n ymwneud â newidiadau yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (y prif Reoliadau).

Fel rhan o'r broses o ystyried tynhau mesurau diogelu drwy'r Rheoliadau hynny, cynhelir Asesiad Effaith Cryno. Bydd hwn yn Asesiad Effaith Cryno newydd o dan amgylchiadau pan fydd mesurau newydd yn cael eu cyflwyno. Pan fo mesurau wedi cael eu defnyddio o'r blaen, bydd hyn yn golygu adolygu ac o bosibl ddiweddaru Asesiad Effaith Cryno presennol.

Cyhoeddir Asesiadau Effaith Cryno cyn gynted â phosibl ond yn aml mae hyn gryn amser ar ôl i Reoliadau diwygio gael eu gwneud, o ystyried amserlenni ar gyfer sicrhau ansawdd a chyhoeddi deunydd cymhleth a sylweddol yng nghyd-destun yr ystod o waith arall sy'n cael ei wneud i ymateb i'r pandemig.

Wrth lacio mesurau diogelu, dim ond os disgwylir i'r effeithiau fod yn wahanol i'r rhai a nodwyd yn flaenorol y byddai asesiad newydd neu asesiad wedi ei ddiweddaru yn cael ei gyhoeddi. Os disgwylir i'r effeithiau fod yr un fath, bydd yr asesiad effaith a gyhoeddwyd yn flaenorol yn parhau i fod yn ddilys.

Rydym yn ystyried bod yr asesiadau effaith perthnasol sy'n ymwneud yn benodol â chyfyngiadau ar weithgaredd awyr agored, a gyhoeddwyd yn 2021, yn parhau i fod yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Gellir dod o hyd i'r asesiadau perthnasol hyn yn y dolenni isod:

adolygiad-o-gyfyngiadaur-coronafeirws-14-mai-2021-asesiad-effaith-cryno_0.pdf (llyw.cymru)

Lefelau Rhybudd yng Nghymru - canllaw i'r cyfyngiadau: asesiad effaith cryno Awst 2021 | LLYW.CYMRU

Rydym wedi cychwyn adolygiad o'r broses asesu effaith uchod a byddwn yn ystyried sylwadau gan y Pwyllgor.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **OS a osodwyd gerbron y Senedd, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig Rheoliadau Gwastraff ac Amaethyddiaeth (Swyddogaethau Deddfwriaethol) 2021 ("Rheoliadau 2021")** |
| **DYDDIAD** | **17 January 2022** |
| **GAN** | **Julie James MS, Minister for Climate Change and Lesley Griffiths MS, Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd.** |

1. Mae Rheoliadau 2021 yn darparu bod swyddogaethau deddfwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd o dan amryfal Gyfarwyddebau Gwastraff yn arferadwy yn lle hynny gan awdurdod cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.

2. Bydd Rheoliadau 2021 yn trosglwyddo swyddogaethau sy'n ymwneud â materion polisïau datganoledig i Weinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol (SoS) mewn perthynas â Lloegr, Gweinidogion yr Alban mewn perthynas â'r Alban a DAERA yng Ngogledd Iwerddon (cyn belled â nad yw'r gyfarwyddeb berthnasol wedi'i rhestru yn Atodiad 2 Protocol Gogledd Iwerddon).

3. Caiff unrhyw swyddogaethau sy'n ymwneud â meysydd a gedwir yn ôl eu trosglwyddo i'r SoS mewn perthynas â'r DU oni bai bod y Gyfarwyddeb berthnasol yn Atodiad 2 Protocol Gogledd Iwerddon. Os felly, caiff ei drosglwyddo mewn perthynas â Phrydain Fawr yn unig.

4. Yn bennaf, y swyddogaethau sy'n cael eu trosglwyddo yw pwerau gwneud deddfwriaeth drydyddol a gynhwysir yng Nghyfarwyddebau Gwastraff yr UE sy'n caniatáu i'r Comisiwn wneud deddfwriaeth ddirprwyedig yn unol â'r pwerau a nodwyd yng Nghyfarwyddebau'r UE. Yn gyffredinol, mae'r ddeddfwriaeth drydyddol yn diwygio neu'n ategu rhannau'r Gyfarwyddeb nad ydynt yn hanfodol. Bydd y pwerau a drosglwyddir yn Rheoliadau 2021 yn cael eu harfer gan offeryn statudol ar ffurf rheoliadau. Y weithdrefn ddeddfwriaethol ar gyfer yr offerynnau statudol hyn fydd y weithdrefn negyddol.

5. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cywiro gwall yn y ddarpariaeth bresennol ar swyddogaethau deddfwriaethol mewn perthynas ag amaethyddiaeth. Mae Rheoliadau 2021 yn mewnosod diffiniad a hepgorwyd ar gyfer "awdurdod perthnasol" ("*appropriate authority*") yn Rheoliad REUL 1306/2013 ar gyllidebu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin. Mae'r diffiniad yn golygu mai Gweinidogion Cymru yw'r "awdurdod perthnasol" ("*appropriate authority*") mewn perthynas â Rheoliad REUL 1306/2013 gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu gweithredu mewn amgylchiadau cyfyngedig, penodol gyda chaniatâd Gweinidogion Cymru.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

6. Bydd Rheoliadau 2021yn cynyddu Cymhwysedd Gweithredol Gweinidogion Cymru drwy'r pwerau galluogi amrywiol yn cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru. Nid yw'r Rheoliadau'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Diben y diwygiadau**

7. Mewn perthynas â swyddogaethau datganoledig, y pwerau sy'n cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yw:
   i. Y Gyfarwyddeb Tirlenwi – mae'n trosglwyddo pŵer i ddatblygu safon ar gyfer samplu gwastraff.
   ii. Y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio – mae'n trosglwyddo pwerau i ddiwygio is-ddeddfwriaeth a deddfwriaethau yr UE a ddargedwir ar amrywiaeth o swyddogaethau technegol gan gynnwys; dulliau samplu ar gyfer gwastraff, dosbarthiadau cyfleusterau gwastraff, diffinio gwastraff anadweithiol a chanllawiau technegol ar gyfer gwarantai ariannol.
   iii. Y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff – mae'n trosglwyddo pwerau i osod meini prawf ar gyfer pryd mae sylweddau neu wrthrychau penodol yn sgil-gynhyrchion yn hytrach na gwastraff, er mwyn gosod meini prawf diwedd gwastraff ar gyfer deunyddiau penodol a diwygio'r broses o gymhwyso fformiwla adfer ynni R1 ar gyfer cyfleusterau llosgi.
   iv. Y Gyfarwyddeb Diwedd Bywyd Cerbydau (ELV) – mae'n trosglwyddo pŵer i allu gosod gofynion dadlygru sylfaenol ar gyfer cyfleusterau sy'n delio â cherbydau ar ddiwedd eu bywyd.
   v. Y Gyfarwyddeb Batris - mae'n trosglwyddo pŵer i allu gosod rheolau manwl sy'n ategu'r rheolau ar gyfer allforio ac ailgylchu. Gellir ailgylchu batris y tu allan i'r UE ac maent yn gallu cyfrif tuag at ofynion y DU i ailgylchu batris os gwneir y gwaith ailgylchu o dan amodau sy'n cyfateb i'r Gyfarwyddeb mewn gwlad arall.
   vi. Y Gyfarwyddeb Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE) - mae'n trosglwyddo pŵer i allu pennu technolegau mewn perthynas â thrin sylweddau y mae'n rhaid cael gwared arnynt wrth drin WEEE a throsglwyddo'r pŵer i addasu is-ddeddfwriaeth berthnasol yn sgil cynnydd gwyddonol.

8. Y swyddogaethau a gadwyd yn ôl a gaiff eu trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig yw;-

i. Y GCyfarwyddeb ELV – mae'n trosglwyddo pŵer i lunio rhestr o gyfyngiadau metel trwm yn y broses o weithgynhyrchu cerbydau, ac i lunio rhestr o eithriadau o'r gwaharddiadau ar ddeunyddiau a chydrannau sy'n cynnwys metelau trwm (plwm, mercwri, cadmiwm a chromiwm).
ii. Y Gyfarwyddeb ELV – mae'n trosglwyddo pŵer i nodi gofynion sylfaenol tystysgrif ddinistrio. Yn y DU mae'r DVLA yn gyfrifol am ddatgofrestru cerbydau a chyflwyno tystysgrifau dinistrio i'r gofrestr cerbydau cenedlaethol.
iii. Y Gyfarwyddeb ELV – mae'n trosglwyddo pŵer i osod safonau i gefnogi'r rhwymedigaeth ar weithgynhyrchwyr cerbydau i sicrhau bod cydrannau wedi'u marcio (labelu cynnyrch) er mwyn eu helpu i'w hailddefnyddio a'u hailgylchu.
iv. Y Gyfarwyddeb Batris – mae'n trosglwyddo pŵer i ganiatáu eithriadau o'r gofynion labelu batris.
v. Y Gyfarwyddeb WEEE – mae'n trosglwyddo pŵer i addasu'r symbol ar gyfer marcio cyfarpar trydanol ac electronig

9. Ar gyfer pob un o'r pwerau sy'n cael eu trosglwyddo nid oes pŵer domestig cyfatebol. Mae'n bwysig ein bod ni'n trosglwyddo'r swyddogaethau hyn o fewn dwy flynedd i ddiwrnod cwblhau Eiddo Deallusol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu addasu'r materion perthnasol yn y dyfodol.

10. Ni fydd angen arfer y swyddogaethau sy'n dychwelyd a ddarperir gan Reoliadau 2021 ar unwaith, byddant yn dod yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir. Bydd rheolaethau presennol yn parhau i fod yn gymwys tan fod angen iddynt newid.

11. Mae Rheoliadau 2021 yn cywiro gwall yn Rheoliad REUL 1306/2013 i fewnosod diffiniad "awdurdod priodol" ("*appropriate authority*") a oedd wedi'i hepgor mewn camgymeriad.

12. Roedd Rheoliad 10(2)(a) a (b) o Reoliadau Amaethyddiaeth (Taliadau) (Diwygiadau etc.) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1445) yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau Amaethyddiaeth (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/748), a mewnosododd ddiffiniad o "awdurdod perthnasol" ("*appropriate authority*") yn Rheoliad REUL 1306/2013. Roedd y diffiniad hwn yn darparumai Gweinidogion Cymru oedd yr awdurdod perthnasol yn ddarostyngedig i bwynt (ii) o'r diffiniad sy'n darparu y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu gyda chaniatâd Gweinidogion Cymru mewn amgylchiadau penodol, cyfyngedig.

13. Diddymwyd rheoliad 3 o Reoliadau Amaethyddiaeth (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019 yn ddilynol mewn camgymeriad yn union cyn diwrnod cwblhau Eiddo Deallusol gan reoliad 65 o Reoliadau Amaethyddiaeth (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019 (S.I. 2019/831). Mae hyn wedi golygu nad oes diffiniad ar hyn o bryd ar gyfer "awdurdod priodol" ("*appropriate authority*") yn Rheoliad REUL 1306/2013.

14. Mae Rheoliadau 2021 yn rhoi'r diffiniad ar gyfer "awdurdod priodol" ("*appropriate authority*") yn ôl yn Rheoliad REUL 1306/2013.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

15. Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â, ac ar ran, Cymru oherwydd rhesymau megis effeithlonrwydd, hwylustod ac yn sgil natur dechnegol y diwygiadau. Ar ôl ystyried yn llawn a gofalus y diwygiadau a gynigir, yr asesiad o gyfarwyddiadau'r polisi a dadansoddiad cyfreithiol o'r gwaith drafftio, nid oes gwahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol ar ôl ymadael â'r UE.

| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **005 - Rheoliadau Gwastraff ac Amaethyddiaeth (Swyddogaethau Deddfwriaethol) 2022**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 13 Ionawr 2022* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na fydd |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Gwneir y Rheoliadau hyn i fynd i'r afael â’r ffaith nad yw cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol neu â diffygion eraill sy'n deillio o’r Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae’r Rheoliadau yn darparu bod swyddogaethau deddfwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd o dan amryfal Gyfarwyddebau Gwastraff yn arferadwy yn lle hynny gan awdurdod cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig. Bydd Rheoliadau 2021 yn trosglwyddo swyddogaethau sy’n ymwneud â materion polisïau datganoledig i Weinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol (SoS) mewn perthynas â Lloegr, Gweinidogion yr Alban mewn

perthynas â’r Alban a DAERA yng Ngogledd Iwerddon (yn ddarostyngedig i eithriadau a nodir ym Mhrotocol Gogledd Iwerddon).

Ar gyfer pob un o’r pwerau sy’n cael eu trosglwyddo nid oes pŵer domestig cyfatebol. Mae llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol dyddiedig 7 Ionawr 2022 yn cadarnhau na fydd angen arfer y swyddogaethau sy’n dychwelyd a ddarperir gan Reoliadau 2021 ar unwaith, byddant yn dod yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir. Bydd rheolaethau presennol yn parhau i fod yn gymwys tan fod angen iddynt newid

Mae'r Rheoliadau hefyd yn cywiro gwall yn y ddarpariaeth bresennol ar gyfer swyddogaethau deddfwriaethol yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Mae Rheoliadau 2021 yn mewnosod diffiniad a hepgorwyd ar gyfer “awdurdod perthnasol” (“appropriate authority”) yn Rheoliad REUL 1306/2013 ar gyllidebu, rheoli a monitro’r polisi amaethyddol cyffredin. Mae’r diffiniad yn golygu mai Gweinidogion Cymru yw’r “awdurdod perthnasol” mewn perthynas â Rheoliad REUL 1306/2013 gyda’r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu gweithredu mewn amgylchiadau cyfyngedig, penodol gyda chaniatâd Gweinidogion Cymru.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae’r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â’r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 17 Ionawr 2022 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Fodd bynnag, mae’r Cynghorwyr Cyfreithiol hefyd yn nodi mai Rheoliadau Gwastraff ac Amaethyddiaeth (Swyddogaethau Deddfwriaethol) **2022** yw’r Rheoliadau drafft y mae’r datganiad ysgrifenedig hwn yn ymwneud â hwy, nid Rheoliadau 2021. Yn wahanol i bob datganiad ysgrifenedig arall a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y Chweched Senedd, nid yw’r datganiad hwn yn darparu linc i’r Rheoliadau nac i’r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy’n nodi tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau.

Mewn llythyr wedi’i gyfeirio at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad dyddiedig 8 Tachwedd 2021, darparodd y Prif Weinidog: *Gallaf gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu i’ch pwyllgor a phwyllgorau perthnasol eraill i roi gwybod iddynt am fwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru, gan egluro’r sail resymegol dros y bwriad i roi cydsyniad. Pan fydd amser yn caniatáu, byddwn yn rhoi cyfle i’r Senedd fynegi barn cyn y rhoddir cydsyniad yn ffurfiol.*

Fodd bynnag, mae paragraff 15 o’r Datganiad Ysgrifenedig yn darparu bod cydsyniad wedi cael ei roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau’n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Ni hysbyswyd y

Pwyllgor hwn gan Lywodraeth Cymru o'i bwriad i gydsynio i OS Llywodraeth y DU, na'r rhesymeg dros y bwriad i gydsynio.

Ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol at y Pwyllgor hwn ar 7 Ionawr 2022, gan nodi ei fod wedi cydsynio i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru, a bod cytundeb wedi'i roi i wneud y Rheoliadau hyn. O ran ymrwymiad y Prif Weinidog fel y'i nodir yn y llythyr dyddiedig 8 Tachwedd, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi:
*Mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo, lle bo amser yn caniatáu, y byddwn yn rhoi cyfle i'r Senedd fynegi barn cyn rhoi caniatâd yn ffurfiol. Yn anffodus, nid oedd yn bosibl gwneud hynny ar gyfer yr OS hwn oherwydd er mai dim ond yn ddiweddar y cafodd ei osod, rhoddwyd caniatâd rai wythnosau'n ôl a chyn i'r ymrwymiad gael ei weithredu.*

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**Datganiad Ysgrifenedig**

**Offeryn Statudol (OS) wedi'i osod yn Senedd y DU sy'n diwygio deddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Plaladdwyr (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2022 ("y Rheoliadau")**

Mae'r Rheoliadau'n dirymu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir isod sy'n ymwneud â phlaladdwyr, ac yn benodol deddfwriaeth mewn perthynas â chynhyrchion diogelu planhigion a lefelau gweddillion uchaf. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gyfraith yr UE a ddargedwir ac nid oes ei hangen bellach.

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/616 sy'n adnewyddu'r gymeradwyaeth a roddwyd i'r sylwedd actif fforamsylffwron yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cygnor sy'n ymwneud â rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad, ac sy'n diwygio'r Atodiad i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 540/2011.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/617 sy'n adnewyddu'r gymeradwyaeth a roddwyd i'r sylwedd actif metalacsyl-M, a chyfyngu ar y defnydd o hadau a drinnir â chynhyrchion diogelu planhigion sy'n ei gynnwys, yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n ymwneud â rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad, ac sy'n diwygio'r Atodiad i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 540/2011.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/640 mewn perthynas â pheidio â chymeradwyo rhin propolis fel sylwedd basig yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â gosod cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/642 sy'n cymeradwyo'r sylwedd basig L-cystein, yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad, ac sy'n diwygio'r Atodiad i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 540/2011.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/643 mewn perthynas â pheidio â chymeradwyo gwreiddiau *Saponaria officinalis L.* fel sylwedd sylfaenol, yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar roi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/646 sy'n cymeradwyo'r sylwedd actif Lafandwlyl senecioad fel sylwedd risg isel, yn unol â Rheoliad (EC) 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad, ac sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 540/2011.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/653 sy'n cywiro Rheoliad Gweithredu (EU) Rhif 540/2011 ac (EU) Rhif 2019/706 mewn perthynas â Rhif CAS (y Gwasanaeth Alldyniadau Cemegol) ar gyfer y sylwedd actif carfon.

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2020/703 sy'n diwygio Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 396/2005 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â lefelau gweddillion uchaf ar gyfer deumethoad ac omethoad mewn neu ar geirios.
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2020/749 sy'n diwygio Atodiad III i Reoliad (EC) Rhif 396/2005 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â lefelau gweddillion uchaf ar gyfer clorad mewn neu ar gynhyrchion.
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2020/856 sy'n diwygio Atodiadau II, a III i Reoliad (EC) Rhif 396/2005 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn â lefelau gweddillion uchaf ar gyfer cyantraniliprol, cyasoffamid, cyprodinil, ffenpyrocsimad, fflwdiocsonil, fflucsapyrocsad, imasalil, isoffetamid, cresocsim-methyl, lwffenwron, mandipropamid, propamocarb, pyraclostrobin, pyrioffenon, pyriprocsiffen a spinetoram mewn neu ar gynhyrchion penodol.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/869 sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu (UE) Rhif 540/2011 mewn perthynas ag estyn cyfnodau cymeradwyo'r sylweddau actif, beflwbwtamid, benalacsyl, benthiaffalicarb, biffenasad, boscalid, bromocsynil, captan, cyasoffamid, dimethomorff, etheffon, etocsasol, ffamacsodon, ffenamiffos, fflwmiocsasin, fflwocsastrobin, ffolpet, fformetanad, metribwsin, milbemectin, *Paecilomyces lilacinus* straen 251, ffenmedipham, ffosmet, pirimiffos-methyl, propamocarb, prothioconasol ac S-metolaclor.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/892 mewn perthynas â pheidio ag adnewyddu'r gymeradwyaeth a roddwyd i'r sylwedd actif beta-cyfflwthrin, yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad, ac sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 540/2011.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/968 sy'n adnewyddu'r gymeradwyaeth a roddwyd i'r sylwedd actif pyriprocsiffen yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad, ac sy'n diwygio'r Atodiad i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 540/2011.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/1003 sy'n adnewyddu'r gymeradwyaeth a roddwyd i'r sylweddau actif *Phlebiopsis gigantea* straeniau VRA 1835, VRA 1984 ac FOC PG 410.3 fel sylweddau risg isel, yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad, ac sy'n diwygio'r Atodiad i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 540/2011.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/1004 sy'n cymeradwyo'r sylwedd basig llaeth buwch, yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad, ac sy'n diwygio'r Atodiad i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 540/2011.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/1018 mewn perthynas â chymeradwyo pyroffosffad fferrig fel sylwedd risg isel, yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad, ac sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 540/2011.

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2020/1085 sy'n diwygio Atodiadau II a V i Reoliad (EC) Rhif 396/2005 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â lefelau gweddillion uchaf ar gyfer clorpyriffos a chlorpyriffos-methyl mewn neu ar gynhyrchion penodol.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/1160 sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu (UE) 540/2011 mewn perthynas ag estyn cyfnodau cymeradwyo'r sylweddau actif alwminiwm amoniwm sylffad, alwminiwm silcad, gwaed powdr, calsiwm carbonad, carbon deuocsid, rhin llwyni te, gweddillion distyllu braster, asidau brasterog C7 i C20, rhin garlleg, asid giberelig, giberelin, proteinau wedi'u hydroleiddio, sylffad haearn, cieselgwr (pridd diatomit), olewau planhigion/olew hadau rêp, potasiwm hydrogen carbonad, tywod cwarts, olew pysgod, cynhyrchion ymlid ag arogl sy'n dod o anifeiliaid neu blanhigion/braster defaid, fferomonau lepidopteraidd cadwyn syth, tebwconasol ac wrea.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/1246 mewn perthynas â pheidio ag adnewyddu'r gymeradwyaeth a roddwyd i'r sylwedd actif ffenamiffos, yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad, ac sy'n diwygio'r Atodiad i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 540/2011.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/1263 sy'n cymeradwyo'r sylwedd actif hydrogen carbonad fel sylwedd risg isel yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad, ac sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 540/2011.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/1276 mewn perthynas â pheidio ag adnewyddu'r gymeradwyaeth a roddwyd i'r sylwedd actif bromocsynil, yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad, ac sy'n diwygio'r Atodiad i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 540/2011.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/1280 mewn perthynas â pheidio ag adnewyddu'r gymeradwyaeth a roddwyd i'r sylwedd actif benalacsyl, yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad, ac sy'n diwygio'r Atodiad i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 540/2011.
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 2020/1281 mewn perthynas â pheidio â chymeradwyo'r sylwedd actif ethametsylffwron-methyl, yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar roi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/1293 sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu (EU) Rhif 540/2011 mewn perthynas â'r amodau ar gyfer cymeradwyo'r sylwedd actif asadiractin.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1295 sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu (EU) 2015/408 mewn perthynas â chynnwys y sylweddau actif carbetamid, emamectin, fflwrocloridon, gama-cyhalothrin, halosylffwron-methyl, ipconasol a thembotrion yn y rhestr o opsiynau posibl i'w disodli.

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2020/1498 mewn perthynas â pheidio ag adnewyddu'r gymeradwyaeth a roddwyd i'r sylwedd actif thioffanad-methyl, yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1107/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â rhoi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad, ac sy'n diwygio'r Atodiad i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 540/2011.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1511 sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu (EU) Rhif 540/2011 mewn perthynas ag estyn cyfnodau cymeradwyo'r sylweddau actif amidosylffwron, biffenocs, clorotolwron, cloffentesin, clomason, cypermethrin, daminosid, deltamethrin, dicamba, diffenoconasol, difflwffenican, ffenocsaprop-P, ffenpropidin, fflwdiocsonil, fflwffenacet, ffosthiasad, indocsacarb, lenasil, MCPA, MCPB, nicosylffwron, olewau paraffin, picloram, prosylffocarb, sylffwr, trifflwsylffwron a thritosylffwron.
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/1565 sy'n diwygio Atodiadau II, III, a IV i Reoliad (EC) Rhif 396/2005 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â lefelau gweddillion uchaf ar gyfer 1, 4-diaminobwtan, 1-methylcyclopropen, amoniwm asetad, biffenasad, clorantraniliprol, clormecwat, cyprodinil, calchfaen, mandipropamid, pupur, pyridaben, cynhyrchion ymlid: uwd gwaed, rhin gwymon a hydroclorid trimethylamin mewn neu ar gynhyrchion penodol.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1643 sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu (EU) Rhif 540/2011 mewn perthynas ag estyn y cyfnod cymeradwyo ar gyfer y sylweddau actif ffosffid, denathoniwm bensoad, halocsiffop-P, imidacloprid, pencycuron and seta-cypermethrin.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/2007 sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu (EU) Rhif 540/2011 mewn perthynas ag estyn cyfnodau cymeradwyo'r sylweddau actif 1-decanol, 1, 4-dimethylnafft-halen, 6-bensyladenin, asecwinocyl, *Adoxophyes orana granulovirus*, alwminiwm sylffad, amiswlbrom, *Aureobasidium pullulans* (straeniau DSM 14940 a DSM 14941), asadiractin, *Bacillus pumilus* QST 2808, benalacsyl-M, bicsaffen, bwpirimad, *Candida oleophila* straen O, clorantraniliprol, deusodiwm ffosffonad, dithianon, dodin, emamectin, fflwbendiamid, fflwometwron, fflwcsapyrocsad, fflwtriaffol, hecsythiasocs, imasamocs, ipconasol, isocsaben, asid L-ascorbig, sylffwr calch, olew orenau, *Paecilomyces fumosoroseus* straen FE 9901, pendimethalin, penfflwffen, penthiopyrad, potasiwm ffosffonadau, prosylffwron, *Pseudomonas sp.* straen DSMZ 13134, pyridalyl, pryioffenon, pyrocswlam, cwinmerac, asid S-abscisig, sedacsan, sintoffen, sodiwm thioswlffad arian, spinetoram, spirotetramat, *Streptomyces lydicus* straen WYEC 108, tau-fflwffalinad, tebwffenosid, tembotrion, thiencarbason, faliffenalad, sinc ffosffid.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/2104 sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu (EU) Rhif 540/2011 mewn perthynas ag estyn y cyfnod cymeradwyo ar gyfer y sylwedd actif olew paraffin.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae OSau cynharach wedi rhoi ar waith y prif gywiriadau sydd eu hangen i'r gyfundrefn reoleiddio ar gyfer plaladdwyr, Ehangodd y rhain gymhwysedd gweithredol

Gweinidogion Cymru drwy roi swyddogaethau iddynt (yn rhinwedd eu swyddogaeth fel 'Awdurdod Cymwys' i Gymru) heb eu llyffetheirio.

**Diben y diwygiadau**

Mae'r prif gywiriadau sydd eu hangen i'r gyfundrefn reoleiddio ar gyfer plaladdwyr o ganlyniad i ymadael â'r UE eisoes wedi cael eu rhoi ar waith drwy gyfres o OSau cynharach mewn perthynas ag ymadael â'r UE. Sefydlodd yr OSau hyn gyfundrefn reoleiddio ar gyfer plaladdwyr ym Mhrydain Fawr. Y dull a gymerwyd yn yr OSau cynharach hyn oedd ystyried bod cymeradwyaethau ar gyfer sylweddau actif a phenderfyniadau amrywiol ar derfynau gweddillion uchaf a wnaed yn yr UE cyn diwedd y cyfnod gweithredu wedi cael eu gwneud gan awdurdodau cymwys perthnasol Prydain Fawr, a sefydlu cofrestrau statudol newydd i gofnodi penderfyniadau ynghylch cymeradwyo sylweddau actif a rhoi grym i benderfyniadau ar bennu terfynau gweddillion uchaf ar gyfer plaladdwyr. Roedd hyn yn sicrhau bod holl benderfyniadau perthnasol yr UE yn cael eu cadw ym Mhrydain Fawr ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu. Felly, roedd rheoliadau gweithredu'r UE a oedd wedi rhoi grym i'r penderfyniadau hynny yn flaenorol yn ddiangen a dyna pam cawsant eu diddymu.

Mae bellach angen y Rheoliadau er mwyn dilyn y dull sefydledig hwn mewn perthynas â rheoliadau gweithredu eraill yr UE a ddaeth i rym yn rhan olaf y cyfnod gweithredu, ac felly'n rhy hwyr i gael sylw'r OSau cynharach mewn perthynas ag ymadael â'r UE. Mae grym y rheoliadau gweithredu eraill hyn gan yr UE eisoes wedi cael ei gadw drwy'r darpariaethau pontio yn yr OSau cynharach mewn perthynas ag ymadael â'r UE, a'r cofrestrau statudol newydd, felly nid oes angen y rheoliadau gweithredu eu hunain mwyach. Erbyn hyn, mae angen eu dileu fel nad ydynt yn aros ar y llyfr statud.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau ar gael yma:
https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-pesticides-revocation-eu-exit-regulations-2022

**Pam rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru am resymau effeithlonrwydd a hwylustod. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS Cadeirydd,
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

25 Ionawr 2022

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Plaladdwyr (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2022**

Mae'r OS uchod yn dirymu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â phlaladdwyr, ac yn benodol, deddfwriaeth sy'n ymwneud â chynhyrchion diogelu planhigion a'r lefelau gweddillion uchaf sy'n ddiangen yng nghyfraith yr UE a ddargedwir.

Effaith yr OS yw dirymu deddfwriaeth uniongyrchol ddiangen yr UE a ddargedwir sy'n rhan o'r drefn ar gyfer rheoleiddio cynnyrch amddiffyn planhigion ("PPP") a'r lefel gweddillion uchaf ("MRL"), fel y gall y trefniadau hyn barhau i weithredu'n effeithiol ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu. Mae'r dirymiadau hyn yn ymdrin â deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddaeth i rym tuag at ddiwedd y cyfnod gweithredu (nad oedd OSau cynharach Ymadael â'r UE yn ymdrin â nhw). Dônt i rym ym Mhrydain Fawr trwy ddarpariaethau trosiannol yn OSau cynharach Ymadael â'r UE a'r cofrestrau statudol cenedlaethol. O'r herwydd, nid oes angen mwyach y ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir a gaiff ei dirymu.

Mae'r OS yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, ac fe'i gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 18 Ionawr 2022 gyda dyddiad cychwyn o 4 Ebrill 2022.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai cyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael eu gwneud a'u diwygio yng Nghymru, y tro hwn oherwydd aliniad polisïau y tair llywodraeth a manteision amlwg, o gofio'r pwnc, gwneud y gyfraith sy'n ymwneud â Chymru, Lloegr a'r Alban o fewn un offeryn, rwyf o'r farn nad deddfu ar wahân ar gyfer Cymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o sicrhau'r newidiadau angenrheidiol na chwaith y defnydd doethaf o adnoddau Llywodraeth Cymru o gofio'i blaenoriaethau eraill pwysig

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Felly, ysgrifennaf atoch i roi gwybod ichi fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud yr OS hwn mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig, sydd i'w weld yn:
https://senedd.cymru/media/we1n1qrh/ws-ld14873-w.pdf

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith SeneddHinsawdd@senedd.cymru a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig SeneddEconomi@senedd.cymru er eu gwybodaeth.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **006 - Rheoliadau Plaladdwyr (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2022**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 19 Ionawr 2022* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Bydd |
| Gweithdrefn: | Negyddol Arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 3 Chwefror 2022 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Negyddol Arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu deddfwriaeth uniongyrchol, ddiangen yr UE sydd wedi'i dargadw sy'n rhan o'r drefn ar gyfer rheoleiddio cynnyrch amddiffyn planhigion a'r lefel gweddillion uchaf, fel y gall y trefniadau hyn barhau i weithredu'n effeithiol ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu. Mae'r dirymiadau hyn yn ymdrin â deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddaeth i rym tua diwedd y cyfnod gweithredu ac felly nid oedd OSau Ymadael cynharach yr UE yn ymdrin â nhw mewn perthynas â'r pwnc hwn, ond rhoddir effaith iddynt ym Mhrydain Fawr trwy ddarpariaethau pontio yn OSau Ymadael cynharach yr UE a'r cofrestrau statudol cenedlaethol. O ganlyniad, nid oes angen mwyach y ddeddfwriaeth uniongyrchol a ddargedwir gan yr UE sydd i'w dirymu. Maent bellach yn cael eu dileu fel nad ydynt yn aros ar y llyfr statud.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae’r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â’r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 20 Ionawr 2022 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 12

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon